# Y Pwyllgor Archwilio

## Cofnodion - AC(2) 10-04(min)

## Dyddiad y cyfarfod : Dydd Iau, 02 Rhagfyr 2004

## Amser y cyfarfod: Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Dwyrain De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Dwyrain De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Denise Idris-Jones | Conwy |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| **Tystion** | |
| Yr Athro Philip Gummett | Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) |
| Richard Hirst | Cyfarwyddwr Cyllid, CCAUC |

| | |
|---|---|
| Paul Skellon | Pennaeth Tîm Menter Gaffael Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| **Swyddogion:** | |
| Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Janice Lawler | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Dave Powell | Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad |
| **Yr Ysgrifenyddiaeth** | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Virginia Hawkins | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau buddiant.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddogion i'r cyfarfod.

1.2 Datganwyd y buddiannau canlynol mewn perthynas ag eitem 2:

- Leighton Andrews - mae ei wraig yn Aelod o Gyngor Prifysgol Cymru, Bangor;
- Alun Cairns - Aelod o Lys Prifysgol Cymru, Abertawe;
- Denise Idris Jones - Aelod o Gyngor Prifysgol Cymru, Bangor;
- Val Lloyd - Aelod o Lys Prifysgol Cymru, Abertawe.

## Eitem 2: Caffael yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Philip Gummett a Richard Hirst, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid CCAUC a Paul Skellon, Pennaeth Tîm Menter Gaffael Cymru.

2.2 Ceir cofnod gair-am-air o'r dystiolaeth yn Atodiad 1 i'r cofnodion hyn.

## Pwynt Gweithredu:

Yr Athro Gummett i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar y sail gyfreithiol ar gyfer perthynas CCAUC â'r sefydliadau AU.

**Eitem 3: Y diweddaraf ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar 'Ddigolledu Ffermwyr am Dwbercwlosis Mewn Gwartheg yng Nghymru'**

3.1 Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran rhoi argymhellion y Pwyllgor ar waith, ond roedd mynychder y clefyd yn parhau i fod yn uchel, ac roedd disgwyl i werth taliadau iawndal godi.

3.2 Bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn parhau i fonitro cynnydd ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Yn y cyfamser, gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ar y cynnydd yn nifer y profion TB oedd yn hwyr yn cael eu cyflawni.

**Pwynt Gweithredu:**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y cynnydd yn nifer y profion TB oedd yn hwyr yn cael eu cyflawni.

**Eitem 4: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar 'Reoli’r Casgliadau yn Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru'**

4.1 Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn pob un o'r 13 o argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor. Fodd bynnag, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol bod y manylion ar roi rhai o'r argymhellion ar waith yn dibynnu ar ddatblygu gweledigaeth a fyddai'n cael ei roi ar waith o fis Ebrill 2005 ymlaen.

4.2 O ystyried y gwaith sydd eto i'w gyflawni, cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ddiweddariad gan yr Amgueddfa ymhen blwyddyn.

**Pwynt Gweithredu:**

Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu ag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru i ofyn am fanylion diweddaraf y broses o roi argymhelliad y Pwyllgor ar waith ymhen blwyddyn.

**Eitem 5: Goblygiadau Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru' o ran archwilio**

5.1 Tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at y cynigion uchelgeisiol i wneud arbedion a amlinellir yn Creu'r Cysylltiadau a chyfraniad y Pwyllgor Archwilio at sicrhau'r arbedion hyn.

5.2 Mae rhaglen gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn adlewyrchu themâu Creu'r Cysylltiadau. Byddai rhaglen derfynol, yn adlewyrchu sylwadau'r Pwyllgor yn cael ei dosbarthu yn fuan.

## Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod diwethaf

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 4 Tachwedd 2004.

## Cyfarfod Nesaf

7.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor am 9.30am, ddydd Iau 3 Chwefror 2005.